Dysg...Dawn...Dyfodol

**Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**
**Llangynwyd**
**Maesteg**
**CF34 9RW**

**Ffôn:(01656) 815700**
**Ffacs:(01656) 815701**
**E-bost: post.yggllangynwyd@bridgend.gov.uk**


**Cynorthwy-ydd/wraig Clerigol dros dro cyfnod mamolaeth**
**20 awr yr wythnos - amser tymor ysgol yn unig**
**Cytundeb blwyddyn: 20.03.17 – 16.03.18**
**Gradd 3 SCP 12/13 (£15,523-£15,941) tua £7,047 hyd at £7,237**

Dyma gyfle arbennig i ymuno ag ysgol flaengar a llwyddiannus mewn cyfnod cyffrous yn ei hanes. Mae gennym dîm brwdfrydig o staff sydd yn ymroi'n llwyr i gynnal safonau uchaf o ddysgu ac addysgu a chyflawniad disgyblion. Yn dilyn arolwg Estyn llwyddiannus a chanlyniadau ardderchog y llynedd, rydym yn chwilio am gynorthwy-ydd/wraig clerigol dros dro cyfnod mamolaeth, i ymuno â'n staff gweithgar.

Agorodd Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ym mis Medi 2008 fel yr Ysgol Gyfun Gymraeg gyntaf yn Sir Pen y Bont ar Ogwr. Lleolir yr ysgol i'r de o bentref hanesyddol Llangynwyd, llai na 10 munud o gyffordd 36 yr M4. Mae iddi gysylltiadau rhwydd a pharod o Abertawe i'r gorllewin (llai na 30 munud) a Chaerdydd i'r dwyrain (25 munud).

Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig ac ymroddgar i gynorthwyo dros dro gyda'r gwaith gweinyddol yn yr ysgol, gan gynnwys gwaith dyblygu a gwaith gweinyddol cyffredinol.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus:
- feddu ar sgiliau hunan-reolaethol effeithiol
- fod yn hyblyg o ran dyletswyddau
- feddu ar sgiliau llythrennedd a TGCh da iawn
- feddu ar sgiliau cyfathrebu da yn y Gymraeg a'r Saesneg
- allu gweithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm gweinyddol
- fod yn hawddgar ac yn gefnogol

Rhaid fod gan ymgeiswyr gymwysterau i lefel sydd yn berthnasol ar gyfer y swydd (Lefel 2 neu uwch), gan gynnwys cymhwyster lefel 2 mewn iaith/llythrennedd a mathemateg/rhifedd.

Yr oriau gweithio yw: 5 ½ awr ar ddiwrnodau Llun a Gwener a gallwn fod yn hyblyg gyda'r 9 awr arall.

Os ydych am ymuno â ni a pharhau gyda'r her o weinyddu ysgol uwchradd, lawrlwythwch ffurflen gais neu gysylltwch â Mrs Clare Isaac yn yr ysgol am fwy o wybodaeth.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Mawrth, Chwefror 7fed, 2017 am 12pm.

*This is an advertisement for the post of temporary Clerical Assistant in a Welsh Medium School. The ability to communicate in Welsh is essential.*

**Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**

**Manyleb Person:** Cynorthwyr/wraig Clerigol

| **Profiad: Angenrheidiol** | **Dymunol** |
|---|---|
| Cefndir addysgol da (lefel NVQ2 neu gyfatebol) | Profiad o weithio mewn swyddfa |
| Cymhwyster lefel 2 mewn llythrennedd a rhifedd | Profiad o waith swyddog gweinyddol mewn ysgol |
| Profiad o weinyddu/trin cyllidebau | Profiad mewn nifer o'r dyletswyddau sydd yn y disgrifiad swydd |

| **Sgiliau: Angenrheidiol** | **Dymunol** |
|---|---|
| Sgiliau trefnu a hunan-reoli ardderchog | |
| Y gallu i flaenoriaethu gwaith | Profiad o ddatblygiad neu ddefnydd o'r sgiliau angenrheidiol mewn cyd-destun ysgol |
| Y gallu i gyfathrebu'n dda yn y Gymraeg a'r Saesneg | |
| Sgiliau rhyngbersonol ardderchog | |
| Sgiliau TGCh da iawn | |
| Y gallu i fod yn hyblyg ac ymgymryd â dyletswyddau gwahanol mewn ysgol sy'n datblygu | |
| Gofalgar | |

| **Rhinweddau personol a phroffesiynol: Angenrheidiol** | **Dymunol** |
|---|---|
| Hunan-ysgogol | |
| Disgwyliadau uchel o'u hunain ac o eraill o fewn yr ysgol | |
| Y gallu i sicrhau ymddiriedaeth staff, disgyblion a rhieni. | |
| Yn ddyfalbarhaus | |
| Y gallu i weithio'n unigol ac fel aelod o dîm. | |
| Hawddgar ac yn gefnogol | |
| Y gallu i wneud penderfyniadau ac i flaenoriaethu gwaith | |
| Brwd ac ymroddgar i lwyddiant yr ysgol | |